

Enw / Name: Huw Tomos Pritchard

Gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arfer grymoedd deddfu primaidd, onid yw datblygiad awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn anorfod?

Mae cyflwyno ystyriaethau ynglŷn ag awdurdodaeth i drafodaeth am ddatganoli yn gosod safbwynt arbennig i ystyried datganoli yn y Deyrnas Unedig. Daw hyn yn wir wrth ystyried safle unigryw Cymru fel deddfwrfa sydd heb awdurdodaeth ar wahân. Er mwyn ystyried hyn yn llawn bydd angen cymryd sylw o berthynas datganoli â'r awdurdodaeth ac, yn fwy arbennig, perthynas grymoedd deddfu primaidd gyda'r awdurdodaeth bresennol.

Cydnabyddir bod gan y Deyrnas Unedig dair awdurdodaeth gyfreithiol; Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.¹ Gellir dadlau mai rhan o 'sylfaen' datganoli yw gwahanol gyfundrefnau cyfreithiol y Deyrnas Unedig.² Wrth edrych ar Adroddiad Kilbrandon gwelir bod y ffaith nad oedd gan Gymru gyfundrefn gyfreithiol ar wahân ac enghreifftiau prin yn unig o ddeddfwriaeth ar wahân yn ystyriaethau cryf i beidio cyflwyno datganoli deddfwriaethol i Gymru ar y pryd.³ Awgrymai hynny bod diffyg awdurdodaeth wedi bod yn gyfyngiad sylweddol i Gymru ers dechrau'r drafodaeth ar ddatganoli.

Ni ellir anwybyddu sylfaeni'r awdurdodaethau gwahanol hynny. Derbyniodd yr Alban a Gogledd Iwerddon ddatganoli ddeddfwriaethol drwy Ddeddf yr Alban 1998 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Rhoddodd hyn gymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol iddynt ddeddfu ar unrhyw fater nad oedd wedi ei gadw'n benodol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ar y llaw arall, datganoli gweithredol a gyflwynwyd i Gymru, yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, drwy drosglwyddo grymoedd dros is-ddeddfwriaeth i'r Cynulliad.⁴

Er y cyfyngder ar ddatganoli yng Nghymru datblygodd ar raddfa sydyn iawn. Cyflwynodd Llywodraeth Brydain gynlluniau ar gyfer setliad datganoli newydd i Gymru erbyn 2006.⁵ Yn ganolog i hyn oedd datganoli grymoedd deddfu ehangach i Gymru a fyddai yn arwain tuag at rymoedd deddfu primaidd llawn.⁶ Diddymwyd Deddf 1998 gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn cyflwyno diwygiadau deddfwriaethol sylweddol. Drwy Ran III, ac adran 93, Deddf 2006 rhoddwyd hawl i'r Cynulliad greu Mesurau. Yn sgil hyn roedd modd iddynt greu

¹ C.Himsworth, *Devolution and its Jurisdictional Asymmetries* (2007) 70(1) MLR 31, 33-34

² *Ibid.* 33

³ Royal Commission on the Constitution 1969-1973, Cyfrol 1, Adroddiad, Cmnd.5460, 343 [1151]

⁴ R.Rawlings, *Delineating Wales* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 2003) 5

⁵ Swyddfa Cymru, *Trefn Llywodraethu Well i Gymru*, Mehefin 2005, Cm.6852, [1.5-1.6]

⁶ *Ibid.* [1.26]

deddfwriaeth dros faterion penodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Er mwyn cael y cymhwysedd hwnnw roedd rhaid iddo fod yn fater penodol oedd wedi ei ddatganoli o fewn un o'r ugain maes datganoledig yn Atodlen 5 y Ddeddf. Drwy'r weithdrefn yn adran 95 byddai modd ychwanegu materion penodol drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gyda chaniatâd Senedd y Deyrnas Unedig. Cam olaf y cynllun i ehangu grymoedd deddfwriaethol y Cynulliad oedd drwy Ran IV. Mae hwn yn diddymu, a mynd tu hwnt i, Ran III drwy '[d]rosglwyddo pwerau deddfu sylfaenol yn uniongyrchol i'r Cynulliad.'⁷

Cafwyd refferendwm o blaid Rhan IV ym mis Mawrth 2011 ac erbyn hyn mae'r Cynulliad yn gweithio o dan y ddarpariaeth yma. Mae hyn yn rhoi hawl, drwy adran 107, i'r Cynulliad greu 'Deddfau'r Cynulliad.' Yn hanfodol, mae'r cymhwysedd deddfwriaethol sydd ar gael i'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol. Drwy'r ddarpariaeth yn adran 108 ac Atodlen 7 mae gan y Cynulliad gymhwysedd cyffredinol i ddeddfu yn yr ugain maes datganoledig, oni bai bod unrhyw eithriadau'n gymwys, heb orfod gwneud cais am rymoedd ychwanegol fel darparwyd gan Ran III. Er bod y daith ddatganoledig wedi bod yn fwy troëdig tuag at deddfwriaeth brimaidd na phrofiad yr Alban a Gogledd Iwerddon mae Cynulliad Cymru erbyn hyn hefyd yn meddu ar rymoedd deddfu brimaidd.

Jones a Williams yn eu herthygl 'Cymru fel Awdurdodaeth' sydd wedi gosod y llwyfan ar gyfer ystyried Cymru fel awdurdodaeth unigol.⁸ Y nodweddion hanfodol ar gyfer hynny yw 'tiriogaeth, cyfreithiau a system gyfreithiol.'⁹ Nid yw'n anodd diffinio Cymru fel tiriogaeth unigryw. Mae sawl cydnabyddiaeth statudol wedi bod i hynny drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, wedi'i gadarnhau gan y Ddeddf Ddehongli 1978, ac adran 158 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ceir yr elfennau fwyaf diddorol wrth ystyried y berthynas rhwng y corff o gyfraith Gymreig a'r gyfundrefn gyfreithiol sy'n datblygu'n unigryw i Gymru.

Mae Deddf 2006 yn glir yn ei sail nad yw'n amharu ag awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr. Yn ôl y Nodyn Esboniadol:

Wales is different. It forms part of a single unified England and Wales jurisdiction with a common courts system, judges who can act throughout the two countries and lawyers who are educated and who practice in a way which does not distinguish between England and Wales. There is no intention to change this. The Assembly is

⁷ *Ibid.*[3.23]

⁸ TH.Jones & JM.Williams, *Cymru fel Awdurdodaeth* [2005] 4 Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru 33

⁹ *Ibid.* 33

to be able to make laws which apply in relation to activities in Wales but these will be part of the general law of the jurisdiction of England and Wales.¹⁰

Mae hyn, i raddau helaeth, yn egluro pam bod sylfeini datganoli yng Nghymru wedi bod mor wahanol i weddill y Deyrnas Unedig. Gwelir yn glir bod yr awdurdodaeth unedig yn cyfyngu ar ddatganoli yn gyffredinol yng Nghymru. Mae Lewis a Wincott yn cyfeirio at ddiffygion y nodyn esboniadol, yn arbennig wedi symud i Ran IV Deddf 2006, gan fod gan y Cynulliad y gallu i ddiwygio mwy ar reolau cyfreithiol sylfaenol nag oedd wedi eu rhagweld o'r blaen.¹¹ O ganlyniad, gall y ffaith bod Cymru wedi symud i gymhwysedd primaidd gael effaith ar yr awdurdodaeth er nad yw wedi bwriadu hynny.

Mae angen edrych yn fanylach ar effaith hynny ar awdurdodaeth Cymru a Lloegr. Mae Carwyn Jones AC, wedi bod yn gyson yn ei ddadl pe byddai Cymru'n derbyn grymoedd primaidd y byddai angen 'cynnal trafodaeth ynghylch a ddylid cadw un awdurdodaeth sengl ar gyfer Cymru a Lloegr ai peidio.'¹² Mae Himsworth yn cydnabod y broblem a safle unigryw Cymru yn y Deyrnas Unedig petai Cymru'n cael grymoedd deddfu primaidd ond heb gael awdurdodaeth unigol.¹³ Yn wahanol i ystyried y berthynas rhwng datganoli ac awdurdodaeth yn unig mae Himsworth yn mynd i wraidd y ddadl. Yn arbennig, drwy ystyried y berthynas rhwng awdurdodaeth a chymhwysedd deddfwriaethol primaidd yn uniongyrchol. Nodai:

The question that arises and which does, in my view, require a positive answer if primary legislative powers are to be conferred on the Assembly is whether the creation of the new jurisdiction would be a necessary element in the new devolution statute - and this is a question which arises whether or not the law in Wales has become substantively distinctive in any particular respect.¹⁴

Yn ôl Himsworth, mae'r ffaith sylfaenol o ddatganoli grymoedd deddfwriaethol primaidd, ar ben ei hun, yn ddigon i hawlio bod awdurdodaeth ar wahân yn anorfod. Yn ôl y dehongliad hwn mae angen i'r ddeddfwrfa allu creu deddfwriaeth dros diriogaeth arbennig sydd hefyd yn cysylltu â chymhwysedd llysoedd yr awdurdodaeth yn ogystal.¹⁵ Drwy hynny mae'n

¹⁰ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Nodyn Esboniadol, 409 [374]

¹¹ D.Wincott a E.Lewis, *Memorandum*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Ymchwiliad i Sefydlu Awdurdodaeth ar wahan i Gymru: Ymatebion i'r Ymgynghoriad' Mawrth 2012, WJ28, [4.6]

¹² Carwyn Jones AC, *Y Gyfraith yng Nghymru: Y Ddeng Mlynedd Nesaf*, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008, Cymdeithas y Cyfreithwyr, 15

¹³ C.Himsworth, *Continuing Asymmetries in the New Logic of the Devolution Settlement* [2005] 4 Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru 24, 30

¹⁴ *Ibid.* 31

¹⁵ *Ibid.* 32

cydnabod nodweddion angenrheidiol awdurdodaeth fel y diffiniwyd gan Jones a Williams. Ysbrydoliaeth Himsworth yw Deddf Llywodraeth Iwerddon 1920 oedd yn rhannu'r awdurdodaeth yn Iwerddon drwy sefydlu yn statudol, er na ddaeth i rym llawn, un awdurdodaeth a chyfundrefn gyfreithiol yn y Gogledd ac un yn y De.¹⁶

Ym marn Himsworth, mae angen gwahanu awdurdodaeth 'Cymru a Lloegr' petai Cymru'n cael grymoedd primaidd.¹⁷ Yn ei dyb ef, mae'n 'annhebygol' y byddai modd creu cymhwysedd deddfwriaethol sy'n cael ei ddiffinio ar gyfer 'Cymru' ond sydd hefyd yn gallu bod yn ddigon eang i ddefnyddio cyfundrefn gyfreithiol, sef llysoedd, 'Cymru a Lloegr'. Awgrymai y byddai datganoli grymoedd primaidd heb ddarparu ar gyfer awdurdodaeth unigol yn gadael 'bwllch angheuol'.¹⁸

Er rhybudd Himsworth dyma'n union a wnaed ar gyfer Cymru drwy Ddeddf 2006. O ganlyniad, fel y gwelwyd, nid yw'r Ddeddf yn amharu ar undod yr awdurdodaeth bresennol.¹⁹ Er mwyn caniatáu i'r Cynulliad greu deddfwriaeth brimaidd o fewn yr awdurdodaeth bresennol mae Deddf 2006 yn gosod strwythur arbennig i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn ôl adran 108, mae Deddf y Cynulliad yn gyfreithlon os yw'n gymwys i Gymru'n unig ond yn rhoi darpariaeth iddo rychwantu Cymru a Lloegr. Mae hyn yn caniatáu i ddeddfwriaeth brimaidd ddefnyddio cyfundrefn gyfreithiol yr awdurdodaeth bresennol er nad yw'n gymwys i ran helaeth o'r awdurdodaeth diriogaethol honno. Nodai Himsworth yn ddiweddarach:

There is no general power to legislate beyond Wales. But there is a power to engage the courts of a jurisdiction which does extend beyond Wales for the purposes of enforcement and this may indeed square the jurisdictional circle.²⁰

Awgrymai hyn bod ateb cyfansoddiadol Deddf 2006 i broblem Himsworth yn sicrhau nad yw awdurdodaeth ar wahân yn anorfod yn sgil darparu grymoedd primaidd i'r Cynulliad. Mae'r dechneg ddrafftio hwn yn sicrhau bod modd i fwy nag un corff o gyfraith gyd-fyw o fewn un awdurdodaeth a defnyddio'r un sefydliadau cyfiawnder i'w gweinyddu. Sgîl effaith hyn yw bod awdurdodaeth Cymru a Lloegr yn cynnwys, o leiaf, tri chorff o gyfraith ar wahân. Hynny

¹⁶ *Ibid.* 31

¹⁷ *Ibid.* 32

¹⁸ *Ibid.* 32

¹⁹ TH. Jones, *The Laws of England and Wales*, yn S.Hetherington (Gol.) Halsbury's Laws of England: Centenary Essays 2007(Lexis Nexis, 2007) 201

²⁰ C.Himsworth, *Devolution and its Jurisdictional Asymmetries* (2007) 70(1) MLR 31, 43

yw, cyfraith Loegr, cyfraith Gymreig a chyfraith Cymru a Lloegr.²¹ Er hynny, mae amryw wedi dangos pryder am ddyfodol y strwythur yma. Nodai Lewis a Wincott nad yw cael dau gorff o gyfraith o dan un awdurdodaeth yn ateb cynaliadwy.²²

Yn dilyn darpariaeth gyfyngedig Deddf 2006 nid oes modd honni bod datganoli grymoedd primaidd yn anorfod yn arwain at awdurdodaeth ar wahân yn unol â dehongliad Himsworth. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y grym primaidd yn unig, gellir awgrymu bod gorwelion wedi symud i edrych ar agweddau ehangach. Er enghraifft, ceir mwy o bwyslais ar effaith sylwedd y cymhwysedd deddfwriaethol ei hun yn hytrach na'i statws fel deddfwriaeth brimaidd. Nodai adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan y farn hon:

...nid oes angen awdurdodaeth ar wahân i Gymru er mwyn datblygu cymhwysedd deddfwriaethol cynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru...Ond wrth i fwy a mwy o ddeddfwriaeth gael ei gwneud yng Nghymru dros amser, bydd y ddadl dros awdurdodaeth ar wahân yn cryfhau.²³

Mae ystyried y newidiadau a gwahaniaethau sy'n sylwedd y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr yn rhoi llinyn mesur o hyd a lled yr awdurdodaeth. Gellir cyfeirio at ddeddfwriaeth, megis y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i ddangos darpariaeth ddeddfwriaethol unigryw Gymreig. Mae tanlinellu enghreifftiau fel hyn yn mynd rhan o'r ffordd i greu dadl ddilys dros awdurdodaeth Gymreig. Fel nodwyd gan yr Arglwydd Ustus Pill mae 'cyfreithiau ar wahân yn arwain at system ar wahân.'²⁴ Fodd bynnag, mae hyn yn ehangach na dadl Himsworth. Nid yw gwahaniaethau o ran sylwedd yn allweddol iddo gydnabod awdurdodaeth. Er hynny, ni ellir dadlau, bod corff o gyfraith Gymreig yn datblygu'n gyson yng Nghymru sy'n wahanol i'r hyn sy'n bodoli yn Lloegr.

Mae rhai egwyddorion sylfaenol sy'n amlygu natur wahanol gyfraith Gymreig. Un o'r egwyddorion hynny yw statws dwyieithog deddfwriaeth y Cynulliad. Er mwyn creu deddfwriaeth ddilys mae'n rhaid i Ddeddf y Cynulliad gael ei wneud yn Gymraeg a'r Saesneg, yn unol ag adran 111(5), a bydd gan y ddwy fersiwn statws cyfartal. Gall hyn gael sgil effaith ar gymhwysedd y Llys i ymdrin â materion dehongli sy'n codi o ddeddfwriaeth ddwyieithog. Daw hynny'n broblem arbennig os mai Llys yn Lloegr sy'n gorfod gwneud

²¹ Yr Athro TG.Watkin, *Tystiolaeth*, yn 'Ymchwiliad i Sefydlu Awdurdodaeth ar wahan i Gymru: Ymatebion i'r Ymgynghoriad' Mawrth 2012, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, WJ 16, [22]

²² D.Wincott a E.Lewis (n.11) [4.10]

²³ Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, Tachwedd 2009 [3.9.22]

²⁴ Yr Arglwydd Ustus Pill, Anerchiad i Gynhadledd Cymru'r Gyfraith, 9 Hydref 2009

hynny drwy ddefnyddio egwyddor rhychwantu. O ganlyniad, awgrymir y dylai cymhwysedd dros ddeddfwriaeth ddwyieithog gael eu gweinyddu yng Nghymru'n unig.²⁵

Yn yr un modd gallwn ystyried datblygiadau sydd wedi eu cyflwyno ar gyfer gweinyddu cyfiawnder. Nododd Mr Ustus Roderick Evans wrth Gonfensiwn Cymru Gyfan:

...nad oes angen awdurdodaeth ar wahân, ond y gellid cymryd camau gweinyddol i sicrhau bod y gwahaniaethau sy'n gymwys i Gymru yn cael eu hystyried yn briodol yn y system gyfreithiol.²⁶

Petai'r gyfundrefn gyfiawnder wedi ei ddatganoli ar yr un pryd a datganoli grymoedd primaidd, fel nododd Himsworth, byddai'r berthynas rhwng y corff o gyfraith Gymreig a chymhwysedd y llysoedd i ddehongli a chymhwyso'r gyfraith yn fwy cyson. Erbyn hyn, mae cyfres o ddiwygiadau gweinyddol mewn lle i gau'r bwlch yn sgil diffygion Deddf 2006.

Er hynny, mae rhai o'r diwygiadau hynny yn hynod o bwysig. Er enghraifft, sefydlwyd cylchdaith arbennig i Gymru yn Ebrill 2007 i weinyddu'r Llysoedd.²⁷ Roedd hyn yn ddigwyddiad symbolaidd ac arwyddocaol iawn er mwyn cydnabod dylanwad datganoli ar weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.²⁸

Mae datblygiadau arwyddocaol eraill wedi bod hefyd. Er enghraifft, sefydlwyd Llys Mercantilaidd yng Nghaerdydd yn 2000. Yn ogystal, mae adrannau trosedd a sifil y Llys Apêl yn eistedd yng Nghaerdydd.²⁹ Nodwyd gan Mr Ustus David Lloyd Jones bod bron pob awdurdodaeth arbenigol yn cael eu cynrychioli yng Nghymru.³⁰ Wrth reswm, nid yw'r rhain i gyd yn ddatblygiadau sy'n deillio'n uniongyrchol o ddatganoli ond mae'r Anrhydeddus Mr Ustus Roderick Evans o'r farn na fyddai rhai ohonynt wedi digwydd heb ddatganoli.³¹

²⁵ TG.Watkin (n.21) [30]

²⁶ Confensiwn Cymru Gyfan (n.23) [3.9.21]

²⁷ *Submission of the Legal Wales Standing Committee on Jurisdictional Devolution*, yn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Ymchwiliad i Sefydlu Awdurdodaeth ar wahan i Gymru: Ymatebion i'r Ymgynghoriad' Mawrth 2012, WJ 29 [8]

²⁸ Mr Ustus Roderick Evans, *Devolution and the Administration of Justice*, Darlith Goffa yr Arglwydd Callaghan, Prifysgol Abertawe, 2010

²⁹ Legal Wales (n.27) [8]

³⁰ Mr Ustus David Lloyd Jones, *Peirianwaith Cyfiawnder mewn Cymru sy'n Newid*, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010, Cymdeithas y Cyfreithwyr, 8

³¹ Yr Anrhydeddus Mr Ustus Roderick Evans, *Response to the Inquiry into the Establishment of a Separate Welsh Jurisdiction*, yn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Ymchwiliad i Sefydlu Awdurdodaeth ar wahan i Gymru: Ymatebion i'r Ymgynghoriad' Mawrth 2012, WJ 19 [1.3]

Datblygiad arwyddocaol sy'n werth rhoi ystyriaeth fanylach iddo yw datblygiad y Llys Gweinyddol yng Nghymru. Cafwyd cydnabyddiaeth gynnar bod angen i'r Llys Gweinyddol gael trefniadau i eistedd yng Nghymru, yn arbennig, gan mai materion gweinyddol a fyddai'n effeithio fwyaf ar feysydd datganoledig.³² Ers 1999 cafwyd Cyfarwyddyd Ymarfer oedd yn caniatáu i faterion oedd yn ymwneud â datganoli neu yn ymwneud â'r Cynulliad, y weithredgorff Gymreig neu gorff cyhoeddus yng Nghymru gael gwrandawriad yng Nghymru.³³ Cafwyd cefnogaeth farnwrol i'r egwyddor yma ei nodi'n glir yn achosion *Cynulliad Cenedlaethol Cymru v Condron*³⁴ a *R.(Deepdock) v Gweinidogion Cymru*.³⁵ Cadarnhaodd yr Ustus Hickinbottom yn *Deepdock* y dylai unrhyw her i awdurdod Cymreig mewn maes datganoledig gael gwrandawriad yng Nghymru.³⁶

Cafodd swyddogaeth y Llys Gweinyddol yng Nghymru ei gryfhau yn Ebrill 2009 gydag agoriad canolfan ranbarthol bwrpasol ar gyfer y Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd.³⁷ Daeth hyn yn sgil adroddiad Gweithgor Barnwrol ar sefydlu canghennau o'r Llys Gweinyddol tu allan i Lundain.³⁸ Arweiniodd hyn at Gyfarwyddyd Ymarfer 54(D) sy'n caniatáu cychwyn achos mewn unrhyw un o'r llysoedd rhanbarthol gan gynnwys Caerdydd. Er mai amcan yr adroddiad yw lleoli cyfiawnder tu allan i Lundain rhesymau cyfansoddiadol yn sgil datganoli sydd wedi arwain at yr angen am Lys yng Nghymru. Yn bennaf, bod grymoedd y Cynulliad yn deillio o wahanol ffynonellau,³⁹ bod yn bosib i'r gyfraith yng Nghymru fod yn wahanol i Loegr⁴⁰ ac y dylai achosion sy'n cael eu rhestru yng Nghymru gael gwrandawriad yng Nghymru.⁴¹

Er nad amcanion i'r awdurdodaeth sydd i'r newid yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 54(D) mae'r newidiadau gweinyddol hyn yn sicrhau bod llysoedd Cymru yn gallu datblygu mewn ffordd sy'n gyson â chyfansoddiad Cymru ar gyfer gweinyddu'r gyfraith Gymreig. Yn ôl yr Arglwydd Ustus Pill, mae datganoli pellach ym maes gweinyddu cyfiawnder yn 'anochel.'⁴² Beth sy'n

³² Mr Ustus David Lloyd Jones (n.30) 11-12

³³ Joint Paper by Public Law Wales and the Standing Committee on Legal Wales, 'Strengthening the Administrative Court in Wales' October 2006, Report of Judicial Working Group 'Justice Outside London' Appendix G [10]

³⁴ [2006] EWCA Civ 1573

³⁵ [2007] EWHC 3347 (admin)

³⁶ *Ibid.* [24]

³⁷ Nason, Hardy a Sunkin, *Regionalisation of the Administrative Court and Access to Justice* [2010] JR 220

³⁸ Report of Judicial Working Group, 'Justice Outside London', 2006, ar gael ar <http://www.judiciary.gov.uk/publications-and-reports/reports/general/justice-outside-london/index>

³⁹ *Ibid.* [57]

⁴⁰ *Ibid.* [59]

⁴¹ *Ibid.* [60]

⁴² Pill AU. (n.24) 7

arwyddocaol yn y cyd-destun yma yw mai drwy ddatblygiadau gweinyddol y gwneir hyn ac nid yn y ffordd gynhwysfawr a statudol yr argymhellwyd gan Himsworth.

Er nad yw'r gyfundrefn weinyddu cyfiawnder wedi ei ddatganoli mae rhai elfennau ohono sy'n unigryw i Gymru. Ni ellir anwybyddu bod gofyniadau ieithyddol ar lysoedd Cymru nad sy'n rhan o weddill awdurdodaeth Cymru a Lloegr. O dan adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae gan unrhyw un yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad llys yng Nghymru. Nid yw'r hawl hwnnw'n gymwys tu allan i'r diriogaeth felly er bod modd i unrhyw lys yng Nghymru a Lloegr ymdrin ag achos Cymreig nid yw'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymwys drwy'r awdurdodaeth yn yr un modd. Awgrymai'r Athro T.G.Watkin bod angen rheol gyfreithiol sy'n cydnabod cymhwysedd tiriogaethol unigryw'r llysoedd yng Nghymru i gynnal gwrandawriadau Cymraeg yn hytrach nag fel ymarfer weinyddol yn unig.⁴³ O ganlyniad, gellir adnabod rhai elfennau sylfaenol sy'n awgrymu bod gwahaniaethau yn yr awdurdodaeth unedol yn bodoli'n barod.

Os edrychir yn gyfyng ar ddehongliad Himsworth daw yn glir bod Cymru wedi colli cyfle i sefydlu awdurdodaeth statudol yn uniongyrchol gyda cyflwyniad grymoedd deddfu primaidd. I'r graddau hyn nid yw datganoli grymoedd primaidd wedi gweithio fel catalydd uniongyrchol i ddatblygu'r awdurdodaeth. Fodd bynnag, mae newidiadau nawr yn datblygu yn sylwedd a egwyddorion y corff o gyfraith Gymreig. Yn ogystal, mae datblygiadau gweinyddol y llysoedd yn dangos bod gweinyddu cyfiawnder yn cadw'n gyson â'r tirlun cyfansoddiadol. Yn sgil hynny, gellir dadlau bod awdurdodaeth yn datblygu yng Nghymru. O ganlyniad, nid yw'r 'bwlch' mor 'angheuol' ag y rhybuddiodd Himsworth amdano.

⁴³ TG.Watkin (n.21) [31]